Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 12. Rhif 2.] CHWEFROR, 1912. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Nodion y Mis.
Y Beibl: yr hyn yw a'r hyn nad yw.
Parch. Joseph Wood.
Grym Gwybodaeth.
Parch. J. Park Davies, B.A., B.D.
Oddiar y Twr.
Ein Ysgolion Sul.
Congl yr Awen.
Priodas.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

Miss M.D., Gwesyn Villa; Mrs. M.R., Pentregwenlais; D.J., Clydach Vale; W.D., Dolbante Factory; E.J., New Tredegar; Parch. D.G.R., Penybont; D.H.S., Mountain Ash; E.P.J., Llanrwst; J.J., Aberaman; J.B., Llanelli; Miss A.D., Cellan; J.R., Pontbrenllwyd; J.J., Llandilo; J.D., Hackney Road, Llundain; J.I.D., Trecynon, Aberdar.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch ir gelyn yma i wneud y fath golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith; fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad.

1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

OBDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. —

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1912. [CYF. XII. RHIF 2.

AR EDYN FFYDD.

TYRED ALLAN.

Gad dy ystafell a'i myllni cas,
A thyr'd allan fy mrawd, dan yr awyr las ;
Mae'r haul yn fywyd, mae'r awel yn ras.

Tyr'd allan, fy mrawd, o dy gyfyng gell,
I awyr agored y pethau gwell,
I eangderau'r gorwelion pell.

Magwyrydd cauedig, dileshad
Yw rhagfarn enwad a phlaid a gwlad ;
Tyrd allan ! Dianc ! Mynn dy ryddhad !

Gwybydd nad carchar yw'th gredo i fod,
Ond seren arweiniol--arwyddol nod,
A mynag hyffordd y Bythol Ddod.

Ystyr, ar drothwy gwirionedd drud
Fod yr Iesu'n fwy na'i hanes i gyd.
Ac fod Duw'n fwy na chredo lleta'r byd.

Gâd ogof y nos, a'i dolefus gri,
Ei chulni afiachus, heintus hi ;
O dan gronglwyd y Nef mae dy gartref di.

Anghred gwladeiddia ! Amheuaeth taw,
Mae Nef goruwch Nef yn "y byd a ddaw,"
Ac mae dwyrain hwnt dwyrain yn agor draw.

Tyr'd allan fy mrawd. Dring rhagot yn rhydd
Wyrdd-lethrau cariad, gobaith a ffydd,
Mynyddau tragwyddol gwlad y dydd.

Allan o hunan cei fythol fyw,
Allan mae tangnef o ddwyfol ryw,
Allan mae Rhyddid a Dydd a Duw.

MOELWYN.

NODION Y MIS.

UN o gymeriadau cadarnaf fagwyd ar fronau Ymneillduaeth erioed ydyw Dr. Clifford, yr hwn sydd yn awr yn bedwar ugain ond pump o flynyddoedd o oedran. Yn ei yspryd ac yn ei waith nid ydyw eto ond gwr ieuanc. Y mae wedi gwasanaethu yr un eglwys gyda ffyddlondeb a llwyddiant mawr am dair blynedd ar ddeg a deugain. Y mae yn adnabyddus drwy'r gwledydd fel carwr rhyddid yn mhob cyfeiriad, ac y mae ei enwad ei hun, neu y rhan uniawngred, yn ddrwgdybus o hono nad ydyw mor iach yn mhrif bynciau y ffydd grefyddol ag y dylai fod. Ystyrid ef ganddynt yn heretic peryglus. Gofynwyd iddo yn ddiweddar beth oedd y cyfnewidiadau mwyaf amlwg yn ystod ei weinidogaeth hir, ac atebodd mai y pwysicaf ydoedd y ffaith fod dynion wedi colli eu ffydd yn llwyr yn yr hen gredoau, ac eu bod wedi mabwysiadu yn eu lle egwyddorion sydd yn porthi ac yn bywhau. Dywedai fod hyn yn wir am bob eglwys.

Yr oedd Dr. Clifford yn pregethu y Dduwinyddiaeth Newydd cyn bod son erioed am Campbell, ac er na chydolygai â Mr. Campbell ar bob pwnc, dadleuai dros roddi rhyddid barn a chwareu teg iddo, pan y torodd allan y ddadl fawr ychydig amser yn ol. Buasai Dr. Clifford gyda'r cyntaf yn croesawu yr Undodiaid i Gynghrair yr Eglwysi Rhyddion, oni bae y buasai hyny yn debyg o yru nifer lluosocach allan. Cred fod yr Undodiaid a Christionogion eraill lawer yn nes i'w gilydd yn awr nag a fuont erioed. Y mae Dr. Clifford yn fwy nag un enwad, ac y mae yn medru gweled a gwerthfawrogi y daioni sydd yn mhob un. Y mae ei fywyd wedi bod yn un llafurus, ond dywed mai gwaith caled sydd wedi ei gadw yn fyw.

Yn Mynachlog Westminster dadorchuddiwyd ffenestr liwiedig yn ddiweddar er cadw yn werdd goffadwriaeth y tincer o Bedford. Pe bae John Bunyan yn dychwelyd yn ol ac yn gweled y ffenestr hon, buasai yn sicr o ryfeddu am yr anrhydedd delir iddo, ac yn fwy fyth wrth weled y lle mae yr anrhydedd wedi cael ei ddangos. Buasai y ffaith olaf hon yn dweyd wrtho am y cyfnewidiad mawr sydd wedi dod dros y byd oddiar yr amser pan yr oedd efe, a dynion fel efe, yn cael eu poenydio a'u taflu i gelloedd tywyll carcharau afiach am addoli Duw yn eu ffordd eu hunain, ac am bregethu i'w pobl eu hunain. Yr ydym ni yn byw mewn amser gwell, ac y mae y rhyddid cydwybod fwynhawn yn etifeddiaeth dynion fel Bunyan dalasant y pris hyd yr eithaf. Y mae yn iawn ei fod ef yn cael ei anrhydeddu yn y fan lle mae llwch mawrion y ddaear yn ymgymysgu, heb yr un gwahaniaeth rhwng Eglwys a chredo. Nid ydyw Bunyan ag angen un ffenestr na chofgolofn o farmor. Y mae ei goffadwriaeth i lawr yn ddwfn yn nghalonau y rhai a ddarllenasant "Taith y Pererin,"

ac a deithiasant y ffordd ryfedd hono o ddinas Distryw i'r Ddinas Nefol. Os nad yw yn gofyn am un anrhydedd oddiwrthym ni, y mae yn iawn i ni dalu ein teyrnged o barch i'w goffadwriaeth, ac y mae Mynachlog Westminster yn gyfoethocach am gadw yn fyw goffadwriaeth ei enw mawr ef.

Y mae llawer o feio ar yr Eglwys y dyddiau hyn, a gallwn gyffesu yn rhwydd nad yw hi ddim heb ei diffygion—nad yw hi ddim yn well na'r aelodau a'i cyfansoddant; ond dylid cofio hyn, nad yw ei delfryd ddim yn llai na pherffeithrwydd. Ei hamcan mawr yw addoli Duw a helpu at gariad brawdol. Dywed Emerson na ellir achub dynion yn y maes, a gwaith y gweinidog dybiwn yw arwain yn yr addoliad, addysgu a chyfarwyddo ei wrandawyr yn mherthynas i ddyledswydd, i ddyfnhau y bywyd ysprydol, i ddeffro y dyn oddifewn, a'i anog i rinwedd a phob daioni. Nid pynciau llosgawl cymdeithas yw pynciau priodol y pwlpid. Yr aelodau yn eu cymeriad dinesig sydd i ymwneud â'r pynciau hyny.

Y mae Hunan-gofiant y Dr. Pan Jones, hyd yn oed wrth ei ddarllen ar y mesur byr yn Oriel Coleg Caerfyrddin yn ddyddorol ac yn werth ei ddarllen, yn enwedig i bobl ieuainc. Dangosir ynddo ddyn penderfynol, diysgog, ymdrechgar, a llwyddianus i orchfygu anhawsderau dirif. Yn yr Hunan-gofiant newydd, gwerth haner coron, fe'i ceir yn fwy ar ei hyd—large as life—yn rhedeg ar hyd yr un llinellau. Dywedir nad oes braidd ddyn yn Nghymru wedi mynd trwy brofiadau mor amrywiol, mor rhamantus, a thrwy'r cwbl wedi llwyddo i gadw ei draed tano. Trueni ei fod yn myned yn hen, a gwaith ei ddydd yn nesu at ei derfyn. Hwntw o Landyssul yw yn enedigol, wedi treulio ei amser yn Ngholeg Caerfyrddin, a graddio yn Yr Almaen, a thrwy y rhan fwyaf o'i oes wedi byw'n Ogleddwr, fel gweinidog Annibynol; bellach wedi ymddiswyddo, ac yn awr mewn llawn hyder ffydd yn dysgwyl y wys adref. Dymunwn iddo weddill esmwyth ar ei daith ac ymollyngiad tawel i freichiau y Tragwyddol.

Un o'r llyfrau mwyaf dyddorol a mwyaf gwerthfawr yn ein golwg ni, sydd wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar, yw "The Great Illusion" gan Norman Angell. Y mae wedi ei gyfieithu i ddwsin o wahanol ieithoedd, ac wedi myned trwy ryw haner dwsin o argraffiadau yn Saesneg. Fe'i desgrifir gan un awdwr fel y gwerth haner coron mwyaf cyfoethog yn Ewrop heddyw—the most pregnant half crown's worth, &c. Diben y llyfr yw dangos ffolineb ac ynfydrwydd pob rhyfel, nid yn unig i'r wlad orchfygir ond hefyd i'r wlad sy'n gorchfygu. Yn mhen deng mlynedd ar ol y rhyfel rhwng Ffrainc a Prwsia, er i Ffrainc orfod talu dau can miliwn o iawn, yr oedd Ffrainc mewn sefyllfa arianol llawer gwell na Germany, yn fwy cysurus, yn fwy llwyddianus, ac yn llawer uwch ei chredit. Dywedir fod

Dreadnoughts diweddar Germany wedi eu hadeiladu âg arian wedi ei fenthyca yn Ffrainc. Y mae perthynas teyrnasoedd â'u gilydd yn beth gwahanol iawn heddyw i'r hyn ydoedd gynt. Heddyw y cysylltiadau masnachol yw y pwysicaf. Pe torai rhyfel allan rhyngom ni a Germany, a phe gorchfygai Germany, a phe gorfodid ni i dalu mil o filiynau o bunau, ni fyddai yn enill gwirioneddol. Y mae 95 yn y cant o fasnach Germany yn cael ei gario yn y blaen âg arian benthyg—arian Seisnig yn benaf. Canlyniad uniongyrchol rhyfel fyddai amharu credit Germany a pheri colled y byddai'n rhy anhawdd ei wneud i fyny. Ni allai Lloegr dalu haner 50 miliwn mewn aur. Telid mewn papyr, ac os na ellid newid y papyr am bethau angenrheidiol bywyd—bara, cig, ffrwythau, angenrheidiau bywyd, &c.—arosai yn bapyr a dim ond hyny. Os na allai'r miliynau sicrhau bwyd, pa les fyddai? Byddai prinder bwyd yn hel y pris i fyny, a byddai yn fwy anhawdd i'r bobl ddyfod o hyd iddo. Nid yw gallu milwrol ddim yn rhoddi un fantais fasnachol i wlad; ond o'r tu arall y mae yn difa'r bwyd sydd eisoes yn brin, heb wneud dim i gyfoethogi'r wlad. Po fwyaf fydd yn cael ei wario er amddiffyn gwlad, lleiaf diogel yw. Mae'r gwledydd diamddiffyn yn well eu sefyllfa na'r gwledydd â byddinoedd mawrion. Mae'r 3 per cent. consols yn Belgium yn 96, yn Germany yn ddim ond 82; y 3½ yn Rwsia yn 81, yn Norway heb un fyddin yn 102. Bostir weithiau am "Carrying Power" Lloegr; yn ol ei phoblogaeth y mae eiddo Norway yn dair gwaith cymaint ag yw eiddo Lloegr.

Cymru.—Y mae rhifyn Ionawr "Cymru" fel arfer yn rhifyn dwbl ac yn costio swllt. Ceir ynddo erthyglau gwerthfawr a dyddorol a digon o amrywiaeth. Parheir i roi darn o erthygl fuddugol Hathren ar Feirdd Dyfed o fis i fis, a dylent apelio yn neillduol at ddarllenwyr Yr Ymofynydd yn sir Aberteifi. I ni y mae bywgraffiad Brutus yn y rhifyn presenol yn ddarllenadwy iawn. Yr oedd Brutus yn ddyn galluog, a chreodd llawer o dwrw yn ei ddydd. Cwrddodd â llawer o *ups and downs*. Cyffyrddir yn dyner â'r drafferth y daeth iddo drwy geisio help at ddau achos Undodaidd ddywedai fod dan ei ofal yn Ngogledd Cymru. Clywsom fod y gohebiaethau gwreiddiol ar glawr o hyd, a gohebiaethau eraill cyffelyb yn yr un fan, yn dal cysylltiad â bonwr sydd erbyn heddyw wedi cyrhaedd safle o bwys, ac yn gryn lawer yn y ffrynt fel llenor Cymreig.

Llyfr arall sydd wedi tynu llawer o sylw yw "Broken Earthenware" Harold Begbie. "Y Priddlestri Toredig" hyn yw rhai o drigolion iselaf cymdeithas yn *slums* Llundain—dynion, mewn gair, wedi suddo yn is na'r anifail. Desgrifir hwy yn fywgraffiadol, yr engreifftiau yn amrywio yn fawr yn eu personoliaeth oddi wrth eu gilydd. Dangosir mewn modd desgrifiadol fel y mae'r "angel achubol" dan ddylanwad selog Byddin Iachawdwriaeth yn codi y gwehilion hyn yn raddol o bydewau iselaf llygredigaeth i feddiant o fywyd glân ac

i wasanaeth dynoliaeth. Credai yr hen Iuddewon y genid pob dyn i'r byd gyda dau angel—un da ac un drwg—i weini arno. Dengys y llyfr hwn y modd y gall yr angel da ond cael ychydig o chwareu teg orchfygu yr angel drwg.

Fel rheol, pan fydd y newyddiaduron yn cofnodi marwolaeth rhywun enwog, anwybyddir y ffaith mai Undodwr oedd; ond pan dybir fod Undodiaeth wedi bod yn rhwystr i'w lwyddiant adroddir y ffaith. Math o *Cave Canem*, neu Gochelwch y Bwgan, onide? Cychwynodd y Proff. Henry Jones ar orchwyl ei fywyd fel cobbler; ond yr oedd ynddo dalent, ac fe esgynodd Ysgol Addysg o ris i ris nes enill ei raddau yn Mhrifysgol Glasgow, lle y mae yn broffeswr; a dywedir oni bae ei Undodiaeth y gallasai fod yn Brifathraw Prifysgol Bangor. Cic amlwg, onide? Dygwyd ef i fyny fel Methodyn, ac ni chlywsom erioed ei fod yn proffesu Undodiaeth. Y mae yn ddyn rhyddfrydig ei feddwl, ac yn fwy nag un sect. Llongyfarchwn ef ar ei anrhydedd newydd—Syr Henry Jones.

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.

Gan y Parch. Joseph Wood.

IX.—(Parhad).

Dadblygiad yn y Beibl—Dyn.

YR oedd yna mewn gwirionedd trwy yr holl fyd syniad hollol wahanol am iawnderau dyn i'r hyn ffyna yn bresenol. Fel enghraifft, byddai cyfraith Lycurgus yn Sparta oedd a'i hamcan i ddienyddio plant gwanaidd ar eu genedigaeth, byddai hon yn anmhosibl onibae fod yna y pryd hwnw syniad tra gwahanol am iawnderau dyn i'r hyn fodola yn awr. Gyda ni dechreua iawnderau dyn ar ei enedigaeth, a chydnabyddir fod gan faban awr oed hawl foesol a chyfreithiol i eiddo yn ei fywyd ei hun nas gall yr holl fyd gymeryd oddiarno. Pe bae hyn y dyb gyffredin yn amser Moses, ni fuasai gwragedd a phlant Korah, Dathan ac Abiram wedi cael eu haberthu fel y cawsant. 'Roedd y meddylddrych yn rhy fawr hyd yn oed i Moses. I ni mae'r meddylddrych mor amlwg ynddo'i hun fel mai braidd y gallwn synied am gymdeithas hebddo, ac yr ydym yn dueddol i feddwl y rhaid ei fod o angenrheidrwydd yr un mor amlwg i unrhyw fod dynol, mewn unrhyw oes, oedd mewn meddiant o'i synwyrau. Ond dengys holl gwrs hanes yn ogystal a'r Beibl fod y meddylddrych yma yn mhell o fod wedi bod bob amser yn eglur i'r meddwl dynol, mor bell o fod felly fel mai planigyn o dyfiant araf a graddol yw. Meddylddrych anmherffaith am wahanfodaeth welwn yn cael ei arddangos yn mhlith yr Iddewon. Ond gwelwn ef

hefyd yn cael ei buro a'i ddadblygu. Gogoniant y Prophwydi oedd iddynt wneyd yn hysbys feddwl gwell am ddyn.

Nid oedd dyn wedi bod gymaint ag unwaith, cyn dyddiau Esaiah, yn holl hanes y byd *yn fwy gwerthfawr nag aur.** Nid oedd dim wedi bod mor rhad a bywyd dynol. Ond yn mhell draw yn y pellder gwelodd y Prophwydi ddydd pan y byddai dyn yn drysor uwchlaw gwerth; eu gogoniant oedd iddynt edrych yn mlaen at amser pan y gofynid y cwestiwn, "*Pa les yw i ddyn os enill efe yr holl fyd a cholli ei enaid ei hun.*"†

Fel yr a'r hanes yn mlaen o Moses i'r Prophwydi diweddarach gwelwn y meddylddrych am wahanfodaeth yn tyfu. Mae pob dyn yn gyfrifol am ei weithredoedd ei hunan yn unig. Yn nyddiau Ezeciel byddai yn anmhosibl i roddi gwraig a phlant dyn i farwolaeth gydag ef am droseddau oedd ef yn unig wedi gyflawni, canys dysgodd y Prophwyd hwnw: "*Yr enaid a becho, a fydd marw. Y mab ni ddwg anwiredd y tad, a'r tad ni ddwg anwiredd y mab.*"‡ Y fath ffordd hir ydym wedi deithio ar hydddi o driniaeth ddifeddwl bodau dynol yn amser Moses hyd addysg Crist yn nghylch gwerth *un* ddafad ac *un* darn o arian colledig! Gwelodd Crist fod pob enaid dynol mewn perthynas benodol bersonol a Duw. Gwelodd fod gan Dduw feddwl o brydferthwch yn nghylch pob creadur gwael; fod ganddo ofal am dano ac amcan iddo omeddent iddo gael ei drin gyda dirmyg neu fel pe na bae o un pwys. Plentyn Duw ydoedd, wedi ei greu ar Ei lun a'i ddelw Ei hunan ac felly yn annhraethol werthfawr.

Y meddylddrych hwn yw gwir sylfaen ein gweriniaeth ddiweddar; efe yw bywyd pob mudiad politicaidd y dyfodol. Yn ddiameu gellir cario'r syniad o wahanfodaeth i eithafion ac fod hyny wedi ei wneud ar adegau, ond y mae yn syniad sydd wedi ei arfaethu i ddwyn llawer o ffrwyth gwerthfawr. Yn awr, ni ddaeth y meddylddrych hwn o'r Hen Destament, lle ar y goreu nad yw ond gobaith proffwydol, ond yn hytrach o'r Testament Newydd, lle mae yn genadwri fyw ac angerddol. Nid oedd gan baganiaeth unrhyw syniad o'r fath am ddyn fel dyn; nac ychwaith gan Iddewaeth. Yr oedd Gwerin-lywodraethau yr hen fyd yn ddieithriaid iddo, canys nid oeddynt ond llywodraethau yr ychydig wedi eu hadeiladu ar gaethwasiaeth. Daeth gyda nerth i'r byd am y tro cyntaf pan y dadguddiwyd mai nid er mwyn yr uchel na'r athronydd na'r cyfoethog, nid er mwyn brenhinoedd na phendefigion na gwyr mawr, ond er mwyn dyn fel dyn, er mwyn pob enaid dynol, y tywalltodd Iesu ei enaid allan hyd farwolaeth. Dyn, plentyn Duw; Duw, Tad nefol dyn; Crist yn byw ac yn marw er codi i fyny yr alltud a'r cardotyn—dyma oedd efengyl Gwahanfodaeth. Y mae yn Efengyl ddadblygir yn araf yn y Beibl hyd nes y clywn Crist yn dweyd, wedi ei lanw fel ag oedd â'r teimlad o werth anhraethadwy dyn fel dyn, er y gallasai fod yn gaethwas neu yn droseddwr, "*Mi a ddaethum i geisio ac i gadw yr hyn a gollasid.*"§

Urddas a gwerth dyn fel dyn oedd meddylddrych llywodraethol

---

*Esaiah xiii. 12. †Matthew xv. 26. ‡Ezeciel xviii. 20. § Matthew xviii. 11.

gwareiddiad y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cri arbenig y diwygiwr diweddar yw hi wedi bod mai nid fel brenin na phendefig na seren y bywyd coeth, nac hyd yn oed fel y person diwylliedig a dysgedig, y mae dyn yn fawr, eithr yn hytrach ei fod yn fawr ynddo'i hun; fod urddas a godigogrwydd y natur ddynol gan bob dyn ynddo'i hun, a'i fod yn fôd anibynol gyda breintiau annhrosglwyddadwy yn perthyn iddo.

O ba le daeth y meddylddrych hwn? O'r Beibl er mor anfoddlawn y gall dynion fod i gydnabod hyny. Ni cheir ef yn un man arall. Gwyddom ei hanes, fel y gwyddom hanes meddylddrych gwyddonol, neu ddarganfyddiad neu ddyfais. Mae yr un dynion wrthodant y Beibl yn ddyledus iddo am y peth mwyaf gwerthfawr sydd ganddynt i ddysgu. Mae'n werthfawr i weled mor llawn y mae'r byd wedi dod o'r meddylddrych hwn am ddynoliaeth pan unwaith y mae wedi ei ddadguddio; fel yr ymorfoledda ynddo pan unwaith wedi ei ddeall. Mae yn fynych yn cael ei wyrdroi, ond, er cymaint y lliwir ac y dadliwir ef gan feddwl dynol, eto y mae yn feddylddrych achubol, sydd wedi cymeryd meddiant o'r byd, a'r hwn wahana gymdeithas henafol oddiwrth gymdeithas ddiweddar trwy agendor anfesurol.

Ond tra y mae athrawiaeth Crist am ddyn wedi creu chwyldroad mewn cymdeithas, mae wedi gwneud hyny trwy ddylanwad graddol yspryd anweledig, ac nid trwy reolau a threfniadau. Fel engraifft, nid oes yma un gwaharddiad pendant o gaethwasiaeth, naill ai oddiar wefusau Iesu na'i apostolion. Dywedodd John Wesley mai "swm pob ysgelerder yw caethwasiaeth"; ond mae'n amheus a gredai Paul fod caethwasiaeth yn ddrwg du neillduol. Ni welai yr apostolion mor bell yr arweinid hwy gan yr egwyddorion ddysgent. Ond rhoddodd y Testament Newydd i'r byd feddylddrych am ddyn, ochr yn ochr â'r hwn nas gas gallai caethwasiaeth fodoli.

Mwy amlwg fyth yw buddugoliaeth y meddylddrych hwn ar yr hen deimlad yn nghylch priodas a'r berthynas rhwng y rhywiau, yr hwn olygai y pryd hwnw ddiraddiad menyw.

Diflana amlwreicaeth. Gwneir menyw yn gyfartal ysprydol i ddyn. Ni chyhoeddir un gwaharddiad: ni roddir un reol i lawr. Ond enillodd y syniad o wahanfodaeth ei ffordd yn nghwrs amser—y syniad fod gan bob menyw, yn ogystal a phob dyn, hawliau sanctaidd—bodolaeth anibynol, gwahanfodaeth o'i heiddo'i hun, a natur fwy gwerthfawr nag aur.

Ac nid yw dadblygiad y meddylddrych hwn wedi dod i derfyn eto, Nid ydym yn awr yn gwerthfawrogi dynion fel y dylem. Meddyliwn gyda dirmyg o hyd am y gwreng, y caethwas, y troseddwr a'r dyn du. Twylla hunanoldeb a balchder ni o hyd i gredu ein bod, mewn rhyw ffordd neu gilydd, yn briddyn uwchraddol i'r rhai anwybodus, hurt ac ofergoelus. Mae yn anodd genym gredu fod dyn wedi ei wneud ar lun a delw Duw; ond pan y bydd i ni gredu hyny a phan y bydd i'r byd sylweddoli ei lawn ystyr, yna fe ddaw yr oes euraidd ydys wedi ddisgwyl cymaint am dani, ac yna "fe flagura Paradwys oddiamgylch."

GRYM GWYBODAETH:

(Papur a ddarllenwyd o flaen Cymdeithas Ymdrechol Gristionogol yr Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, nos Lun, Rhagfyr 18, 1911.)

Yn gyntaf carwn ddweyd ychydig am fanteision a chylch addysg ac yna am amcan a grym gwybodaeth. Pe bawn i yn codi testun buaswn yn dewis darn o Lyfr Diarhebion. Y mae'r awdwr hwn yn codi gwybodaeth i binacl clod ac anrhydedd. Medde fe yn un man: "Gwyn ei fyd y dyn a gaffo ddoethineb, a'r dyn a ddygo ddeall allan. Canys gwell yw ei marsiandiaeth hi na marsiandiaeth o arian, a'i chynyrch hi sydd well nag aur coeth. Gwerthfawrocach yw hi na gemau; a'r holl bethau dymunol nid ydynt gyffelyb iddi. Hir hoedl sydd yn ei llaw ddehau hi, ac yn ei llaw aswy y mae cyfoeth a gogoniant. Ei ffyrdd hi sydd ffyrdd hyfrydwch, a'i holl lwybrau hi ydynt heddwch. Pren bywyd yw hi i'r neb a ymaflo ynddi, a gwyn ei fyd a ddalio ei afael ynddi hi. Yr Arglwydd trwy ddoethineb a seiliodd y ddaear, trwy ddeall y sicrhaodd Efe'r nefoedd. Trwy Ei wybodaeth Ef yr holltodd y dyfnderau ac y defnyna'r wybrenau wlith" (iii. 13—20). Ac eto mewn man arall dywed: "Penaf peth yw doethineb; cais ddoethineb; ac a'th holl gyfoeth cais ddeall. Dyrchafa di hi a hithau a'th ddyrchafa di; hi a'th ddwg di i anrhydedd os cofleidi hi. Hi a rydd ychwaneg o ras i'th ben di, ie hi a rydd i ti goron gogoniant. Gwrando fy mab a derbyn fy ngeiriau; a blynyddoedd dy fywyd a amlheir. Yr ydwyf yn dy ddysgu yn ffordd doethineb; ac yn dy dywys yn llwybrau uniondeb. Pan rodiech, dy gerddediad ni bydd cyfyng; a phan redech, ni thramgwyddi. Ymafael mewn addysg; cadw hi, canys dy fywyd di yw hi" (iv. 7—13). Dyfynwyd digon i ddangos fod gwybodaeth yn uchel ei bri er's o leiaf dros ddwy fil o flynyddoedd yn ol. Anhawdd fyddai cael gafael mewn geiriau mwy canmoladwy hyd yn oed yn y dyddiau presenol pan y mae'r "ddaear yn llawn o wybodaeth megys y mae'r dyfroedd yn toi'r môr." Ond na fydded i ni gymeryd ein cam-arwain a meddwl fod pobl yr hen amser yn ddieithriad yn edrych ar wybodaeth yn yr un yspryd. Y mae gyda ni engreifftiau ddigon hyd yn oed yn yr Hen Destament ac yn enwedig yn y rhanau boreuaf o hono i ddangos fod

Gwybodaeth yn Annerbyniol ac yn Berygl

y dylid cadw yn mhell oddiwrtho. Yn ol awdwr hanes y Cwymp yn Llyfr Genesis yr oedd pren gwybodaeth yn Ngardd Eden yn bren gwahardded dig: "A'r Arglwydd Dduw a orchymynodd i'r dyn gan ddywedyd, O bob pren o'r ardd gan fwyta y gelli fwyta; ond o bren gwybodaeth da a drwg na fwyta o hono; oblegid yn y dydd y bwytei di o hono gan farw y byddi farw" (ii. 16, 17). Ac un o ganlyniadau cyntaf yr anufuddod oedd i Adda ac Efa gael eu gyru allan o Baradwys i'r byd i enill eu bara beunyddiol drwy chwys eu gwyneb. Mae'n bosibl hefyd fod yr un yspryd o ddrwgdybiaeth a gwrthwynebiad i wybodaeth yn cael ei amlygu yn hanes gwraig Lot. Gorchymynodd Duw pan yn dinystrio Sodom a Gomorah i Lot a'i wraig ddianc am ddiogelwch i'r ucheldiroedd a dywedodd wrthynt am iddynt beidio edrych drach eu cefn o'u tu ol rhag iddynt gael eu difetha. Ond y wraig—yn unol a thuedd gwragedd yn gyffredinol—garasai weled yr hyn oedd yn cymeryd lle—ac am ei hanufudd-dod i

orchymyn Duw cafodd ei throi yn golofn halen. Y wers ddysgir yma eto yw nad yw yn iawn i ddyn edrych i fewn a cheisio deall gweithrediadau y Bod Anfeidrol. Ac oni ddysgir yr un gwirionedd yn mhellach yn hanes dyddorol

Adeiladu Twr Babel?

O'r hyn leiaf esbonir y dygwyddiad gan rai fel ymgais ar ran dyn i ddringo i fyny at berffeithrwydd Dwyfol yn cymysgu ei iaith er mwyn atal ei uchelgais: "A dywedodd yr Arglwydd, wele y bobl yn un, ac un iaith iddynt oll, a dyma eu dechreuad hwynt ar weithio; ac yr awrhon nid oes rhwystr arnynt am ddim oll ar a amcanasant ei wneuthur. Deuwch, disgynwn, a chymysgwn eu hiaith hwynt fel na ddeallont iaith eu gilydd." A'r un fath gyda'r Pregethwr; y mae yn dibrisio gwybodaeth fel llwybr sydd yn arwain i ofid a dyryswch: "Mi a roddais fy nghalon hefyd i wybod doethineb ac i wybod ynfydrwydd a ffolineb; mi a wybum fod hyn hefyd yn orthrymder yspryd. Canys mewn llawer o ddoethineb y mae llawer o ddig; a'r neb a 'chwanego wybodaeth, a 'chwanego ofid." Nid yn unig yr oedd hyn yn wir am yr Iuddewon ond yr oedd yn wir hefyd am genedloedd ereill. I gymeryd un engraifft dywedir wrthym mewn hen chwedl Roegaidd i Prometheus gael ei gadwyno wrth y graig. Y rheswm oedd iddo esgyn i'r nefoedd a dwyn goleuni i lawr a'i osod yn mynwes y ddynoliaeth. Felly yn lle cael ei wobrwyo am weithred ymddengys mor ddaionus cafodd ei gospi am y tybiai rhai o'r duwiau mai'r wir sefyllfa i ddyn oedd aros mewn oerfel a thywyllwch tragwyddol—yr oedd hyn yn ormod i Shelley ac fel canlyniad ysgrifenodd ei waith anfarwol a elwir "Prometheus Unbound"—"Prometheus wedi ei ryddhau."

Y mae'r ddwy ffordd hon o edrych ar wybodaeth yn parhau i fodoli o hyd yn y presenol. Yn ol y Persiaid yr oedd yna ddau allu yn y byd mewn ymgyrch barhaus a'u gilydd—un o honynt—"Ormuzd" yn cynrychioli y goleuni, a'r llall "Ahriman" yn cynrychioli y tywyllwch. Gellir olrhain cysgod y gred hon mewn ffurf wahanol yn y grefydd Gristionogol. Paham y dethlir gwyl y Nadolig drwy y byd Cristionogol? Yr ateb sydd genym yw mai hwn yw y dydd ar ba un y gwnaeth Iesu ei ymddangosiad ar wyneb y ddaear. Ond fe wyr yr hanesydd fod Nadolig yn myned yn ol i amser boreuach na hyn. Yr oedd Nadolig mewn bri fel gwledd yn mhell cyn i'r Iesu gael ei eni. Y mae ei tharddiad i'w olrhain i'r cyfnewidiadau gymerant le yn nhymorau'r flwyddyn. O ganol Mehefin i ganol Rhagfyr y mae'r dydd yn byrhau a'r nos yn estyn. I'r hen bobl golygai hyn frwydr rhwng y goleuni a'r tywyllwch, ac yr oedd yr olaf yn araf enill y fuddugoliaeth, ond o ganol Rhagfyr yn mlaen, mae yna gyfnewidiad yn cymeryd lle. Y mae'r goleuni yn gorchfygu a gwna'r dydd estyn ac er mwyn dathlu'r amgylchiad yr oedd yn rhaid cael gwledd yn unol ag arferiad y dydd i gydlawenhau. Cafodd y Cristionogion cyntaf fod y traddodiad wedi gwreiddio yn rhy ddwfn yn meddyliau y paganiaid i'w symud i ffwrdd yn gyfangwbl, a'r unig ffordd i ddyfod allan o'r anhawsder oedd gosod

Y Gwin Newydd yn yr Hen Gostrel

ac fel canlyniad mae gwledd Nadolig i ni wedi dyfod yn amgylchiad i anrhydeddu genedigaeth Sylfaenydd a Pherffeithydd mawr ein ffydd. Ond i ddychwelyd oddiwrth hen arferion at ein bywyd ymarferol; gellir dyweyd heb unrhyw betrusder fod gwybodaeth yn uwch ei ffafr gan ddynion heddyw nag y bu mewn unrhyw gyfnod o'r blaen yn holl hanes y byd. I gael prawf o hyn nid oes eisieu i mi ond edrych ar unrhyw ran o'r wlad ag y dygwydd i ni fod fwyaf cynefin a hi. Y mae ysgolion elfenol ac uwchraddol yn britho gwyneb y wlad hon yn ogystal

a gwledydd ereill megys ag y mae ser y nos yn britho gwyneb y nefoedd. Y mae byddin addysg feallai mor amrywiol ac yn sicr yn llawer mwy nerthol na byddin rhyfel—lluosog er gwaethaf y modd y mae hono yn parhau o hyd i fod. Y mae addysg erbyn heddyw wedi dyfod mor rhad ac mor agos tuag atom fel nad oes eisiau i'r tlawd yn fwy na'r cyfoethog mwyach fod heb ran briodol o honi. Y mae gwybodaeth fel goleuni'r nefoedd yn medru dyfod i fewn yn helaeth i bob cartref yn y wlad.

Adroddir hanes am hen wraig wedi myned am dro i lan y môr, ac ar ol iddi weled cyflawnder y dyfroedd, darfu iddi lawenhau yn rhyfedd am fod yno ddigon i bawb heb ymrafaelio am dano. Gallwn ninau ymhyfrydu yn union yr un fath heddyw am fod cyfleusderau addysg wedi eu dwyn o fewn cyrhaedd pawb o honom fel ein gilydd. Ond fel ag yr oedd yn ofynol i'r hen wraig ddyfod i olwg y môr felly y mae'r ddyledswydd yn gorphwys arnom ninau i ddyfod rhan o'r ffordd er mwynhau manteision gwybodaeth. Ond mewn cymhariaeth i'r cenedlaethau fu gellir dweyd fod anhawsderau a maintioli'r daith wedi eu diddymu bron yn gyfangwbl. Os gwir yw'r hanes gorfu i

MARI JONES

deithio ffordd bell ar noswaith arw er sicrhau copi o'r Ysgrythyrau tra yn awr gallwn ni ei gael yn ogystal a phob llyfr arall bron am ychydig o geiniogau heb fyned nemawr o latheni o'r man y digwydd i ni fod yn byw ynddo. Ond boed i ni gofio yn y man hwn na ddarfu i'r manteision hyn gael eu sicrhau heb ymdrech galed ar ran yr hen *bioneers* ffyddlon fuont yn brwydro yn y gorphenol pell ac agos. Yn mhlith y rhai yma rhaid i ni roddi lle yn Nghymru o leiaf i weinidogion yr eglwysi Undodaidd.

"*It's an ill wind that blows nobody good,*" a thebyg fod cyflogau bychain y gweinidogion Undodaidd wedi bod yn foddion i daflu had addysg i lawer rhan anghysbell o'r Dywysogaeth. Yr oedd yna wrthwynebiad mawr i ymdrechion y rhai garent wneud addysg yn rhad a chyffredinol, a cheir fod peth o'r un ysbryd yn parhau o hyd nid yn unig yn mhlith y rhai ydynt bob amser yn erbyn gwelliantau ac yn awyddus am gadw y werin ar lawr mor isel ag sydd yn bosibl ond hefyd weithiau yn mhlith y rhai ag y mae ganddynt bob peth i enill fel y byddo goleuni gwybodaeth yn lledaenu dros wyneb y wlad. Fel rhai o'r Israeliaid gynt yn yr anialwch y mae'n well ganddynt aros yn y caethiwed nag ymdrechu i enill gwlad yr addewid—gwlad yn llifo o laeth a mel—meddyliol.

Achwyniad ddygir gan rai yn erbyn addysg yw ei bod yn ein hanalluogi ar gyfer gwaith ein bywyd, ac yn enwedig y rhai hyny ydynt yn llafurio a'u dwylaw. Y mae lle i ofni fod hyn yn wir am lawer ond yr ateb i'r achwyniad yw mai nid i addysg 'ry'm i briodoli y gwendid hwn ond yn hytrach i'r personau eu hunain, ac yn enwedig yn aml iawn i'r rhieni sydd a syniad anghywir iawn ganddynt am yr hyn ddylasai addysg fod. Goleuo a chadarnau yw gwaith addysg a dylasai gwir wybodaeth bob amser wneud y dyn yn well gweithiwr a'r gweithiwr yn well dyn.

Dywedir eto yn aml fod addysg yn arwain i ymffrost a balchder a chydnabyddwn fod hyn hefyd yn wir i fesur ; ac nid oes dim yn fwy gwrthun na gweled dyn yn defnyddio yr ychydig wybodaeth sydd ganddo er mwyn ceisio dangos ei ragoriaeth ar ddynion eraill. "*A little knowledge is a dangerous thing*"—"Peth peryglus yw *ychydig* o wybodaeth." Ond gallwn ateb bron yn union fel o'r blaen drwy ddweyd mai nid gwendid addysg yw ond gwendid y personau eu hunain, a'r feddyginiaeth yw nid llai ond

RHAGOR O WYBODAETH

a rhagor o hyd nes ymlid i ffwrdd

bob gronyn o ymffrost a balchder o'r cyfansoddiad yn gyfangwbl. Achwyniad arall cyffredin yw fod addysg yn rhy gostfawr ac ymddengys ar yr olwg gyntaf fod yn y gwrthwynebiad lawer o wirionedd ; ond ar ol i mi roddi i'r cwestiwn ystyriaeth bellach a sylwi yn fanwl ar y canlyniadau cawn weled fod diwylliant y feddyginiaeth oreu a rhataf a mwyaf effeithiol er gwella y natur ddynol ag y gwyddom hyd yn hyn am dani. Y gwir reswm fodd bynag pe bae'm ond gallu treiddio i fewn i feddwl y gwrthwynebwyr, dros redeg addysg i lawr yw, am fod gwybodaeth yn goleuo'r meddwl, yn gwneud dynion i sylweddoli eu gwir sefyllfa, yn tori i lawr yr hen ffiniau ydynt wedi eu sylfaeni ar radd a chyfoeth, yn dwyn y gwir a'r teilwng i'r golwg ac yn ein gwneud yn anfoddlon ar gyflwr llawer o bethau ydynt yn bodoli yn ein plith yn y presenol. Ymdrechid gwella'r byd yn y gorphenol yn aml iawn yr un fath ag oedd yr hen feddygon yn ceisio gwella y darfodedigaeth—drwy gadw'r goleuni a'r awyr agored yn mhell oddiwrtho. Ond erbyn heddyw yr ydym wedi darganfod mai'r ffordd oreu i wella gwendidau —nid yn unig wendidau corfforol, ond hefyd wendidau moesol, meddyliol a chymdeithasol yw trwy adael cymaint o oleuni ag a fyddo yn bosibl i fewn tuag atynt.

Cydnabyddir fod yma le o bosibl i ddwyn llawer o welliantau i fewn i'r gyfundrefn o addysg geir yn ein hysgolion yn y dyddiau presenol. Gall fod yn fwy trwyadl, gall fod yn fwy ymarferol, gall greu rhagor o gywreinrwydd yn meddyliau'r ieuainc, gall gefnogi moesoldeb i fesur helaethach, a gall ddal cysylltiad agosach a'n bywyd beunyddiol ac ymarferol. Prif swyddogaeth addysg yw ein dysgu i sylwi o amgylch i ni, a myfyrio ar faterion mawrion bywyd, nid porthi ein blys meddyliol a boddloni ein chwant a thori ein sched, ond creu awyddfryd am ragor o wybodaeth yn barhaus. "*There are no little things*," meddai rhywun, "*only little minds*,"—nid oes *bethau* bychain ond *meddyliau* bychain. A gwna gwir addysg bob amser ein galluogi i edrych ar bob gwrthrych fel arwydd o ryw hanfod tragwyddol, a sylweddoli fod yna fawredd a gogoniant yn perthyn i holl weithredoedd y Creawdwr.

Ond boed i ni gofio fod yna ysgolion heblaw yr ysgol elfenol ac uwchraddol i ba rai y danfonwn ein plant yn eu hieuenctyd. Yr ysgol oreu i lawer a'r unig ysgol i rai yw

Ysgol Profiad.

Ysgol sydd yn gofyn tâl uchel yw hon ond y mae yn dysgu i ni wersi pwysig—gwersi ag y buasai ein bywyd yn lled dlawd hebddynt.

Dysgwn lawer eto oddiwrth natur. "Nid yw'r greadigaeth," meddai Ceiriog, "ond Beibl (neu *Lyfr*) arall Duw." Gwel y deallus ddarluniau prydferth a chlyw leisiau peraidd ar bob llaw iddo, a cha lawer o fwynhad yn ogystal ag adeiladaeth wrth dalu sylw iddynt.

Cawn eto y dyddiau hyn heb fawr o drafferth gwmni a chyfarwyddyd y llyfrau goreu y gwyr y byd am danynt, "Buasai yn well gen i fod yn dlawd," meddai Macaulay, "a chael digon o lyfrau na bod yn gyfoethog hebddynt." Medr gwybodaeth hefyd ddyfod i fewn i'n bywydau drwy gyfryngau celf, drama a cherddoriaeth. Yn wir y mae pob peth o'n hamgylch yn fyw gan feddwl, a gwybodaeth yw yr allwedd gyfrin a'n galluoga ni i fyned i fewn i gysegr Sancteiddiolaf y dirgelion Dwyfol. Ond anhawdd yw i ni wybod rhagor na chyfran fechan o'r cyfan y dyddiau hyn, am fod cylch gwybodaeth yn ddiweddar wedi dyfod mor helaeth. Y mae'r meddwl dynol wedi bod wrthi yn ddiwyd yn astudio'r nefoedd uwch ben a'r ddaear isod, wedi bod yn olrhain hanes yr hen blaned yma a'i myrdd o fywydau yn yr oesau a fu fel y mae genym bellach yr holl wyddorau pwysig, a phob un o honynt mewn gwirionedd yn rhy gynwysfawr i unrhyw ddyn o alluoedd cyffredin i'w meistroli. Ar y goreu y

mae yn ofynol i'r mwyafrif o honom i foddloni ar ychydig, ond hyn a wyddom mae y person sydd a chanddo fwyaf o wybodaeth, drwyadl ac ymarferol, yw y goreu y dyddiau hyn gan nad pa alwedigaeth bynag y byddo wedi ymaflyd ynddi. Y mae yn reol 'rwyn meddwl heb iddi gymaint ag un eithriad, ac y mae yna ystyriaeth bwysig arall sydd yn arwain i'r un casgliad. Cydnabyddir gan bob dyn dysgedig bellach fod yna undeb mewn bywyd o'r radd isaf hyd at y radd uwchaf. Dysg datblygiad ni i edrych ar y presenol fel tyfiant allan o'r gorphenol. Dywed nad oes dim yn bod heddyw nad oedd yn bodoli mewn hanfod yn y dechreuad. Y byd llysieuol yn gyntaf, yna'r anifeilaidd ac yna'r dynol.

Datblygiad yw'r stad ddynol o'r stad anifeilaidd, ac os y gofynwn pa beth yw y cam nesaf i fod cawn yr ateb mai dyn mor bell ag y mae'r agwedd faterol yn myned yw y datblygiad uwchaf y gallwn ddisgwyl am dano. Yn y cyfeiriad yna yr ydym wedi cyrhaedd yr eithafbwynt. Yr ydym eisoes yn symud yn mlaen i dir uwch—sef tir y meddwl. Y mae bron holl aelodau y corff yn cael eu cynorthwyo gan offerynau allanol ag ydynt wedi eu dyfeisio drwy gymorth y gallu meddyliol. I sylwi ar wrthrychau bychain a phellenig, i gludo negeseuon i bellder ffordd, i deithio yn gyflym ar fôr a thir—gosodwn yr hen beirianau corfforol bron yn gyfangwbl o'r neilldu, a gwnawn ddefnyddio peirianau eraill parotach a mwy effeithiol ydynt wedi eu dyfeisio gan ddyn drwy gymorth Duw. Nid ydym eto mae'n wir ond megys

Ar Drothwy y Byd Newydd

rhyfeddol hwn. Ond yr ydym eisoes wedi teithio yn ddigon pell i fedru gweled mai y person sydd fwyaf effeithiol heddyw yw nid yr un sydd yn dibynu ar ei allu corfforol—er fod y corff wrth gwrs o hyd yn bwysig—yn gymaint a'r un sydd yn dibynu ar ei allu meddyliol ac yn feddianol ar gyneddfau ydynt wedi eu cwrteithio i barodrwydd a defnyddioldeb. *Knowledge is power*—y mae gwybodaeth yn allu. Ond ar yr un pryd gall fod yn allu er drwg yn ogystal ag er daioni. Y mae bron yn union yr un fath a'r ager. Yr un pwer sydd yn gyru'r llong ar y graig ag sydd yn ei dwyn i'r hafan, yr un pwer sydd yn gyru'r gerbydres i ddinystr ag sydd yn ei dwyn mewn dyogelwch i'r orsaf, a'r un gallu sydd yn hollti'r graig er mwyn i ni gael gafael am drysorau dirgel ag sydd yn hyrddio bywydau gwerthfawr i ddiwedd truenus ar faes y frwydr, a'r un fath mewn perthynas i wybodaeth. Denfyn un i anrhydedd a'r llall i ddinystr; un i'r coleg a'r llall i'r carchar. Y defnydd goreu fedr ambell un wneud o'i wybodaeth yw cymeryd mantais ar wiriondeb y digyraedd er mwyn sicrhau ei elw personol ei hun. A thrueni yw meddwl fod yna gynifer o fobl ieuainc yn methu troi y ddysgeidiaeth y maent wedi dderbyn i rywbeth gwell na darllen sothach difudd a chwilio am bleserau arwynebol ydynt yn darfod fel niwl y boreu ac yn gadael y meddwl yn fwy llwm a sychedig nag oedd hyd yn oed ar y dechreu. Trueni mwy oherwydd fod i addysg amcan uwch a gwell. Yn ddiameu y ddau allu cryfaf yn y byd er daioni ydynt

Wybodaeth a Chrefydd.

Ac er cyrhaedd amcan anrhydeddus rhaid i'r ddau fod mewn cydymdeimlad a chydweithrediad a'u gilydd. Pan wedi eu hysgaru oddiwrth eu gilydd nid yw y canlyniadau bob amser, fel y gwelsom, yn ddymunol. Prif waith crefydd yw ffurfio delfryd deilwng ac aruchel. Prif waith gwybodaeth yw ein cyfarwyddo i gyrhaedd ati. Gall crefydd greu llawer o gynhwrf a theimlad a dangos i ni mewn moment o amser yr hyn y byddwn ni o bosibl ar ben tragwyddoldeb o dyfiant. Ond os na fydd y meddwl a'r rheswm yn cydweithredu fe fydd yna wrthgiliad truenus yn cymeryd lle fel y cawsom brofi yn ddiweddar mewn cysylltiad a'r diwygiad yn Nghymru. Y mae gwybod-

aeth yn ein galluogi i gadw golwg ar y nod ac yn ein cynorthwyo i gyrhaedd tuag ati. Y mae i wybodaeth amcanion daionus hyd yn oed yma ar y ddaear. Fel yr awgrymais yn barod, o dan yr amgylchiadau presenol, ei ffordd hi yw y ffordd sydd yn arwain i weithgarwch effeithiol a llwyddiant tymhorol. Ac os yw hyn yn wir heddyw fe fydd yn sicr o fod yn fwy felly yn y dyfodol pan y byddom yn byw yn fwy yn y byd meddyliol ac o bosibl lai yn y byd materol. Ond heblaw hyn gwna gwybodaeth hefyd ein bywyd yn fwy pur a phleseraidd. Gwna ymladd i ffwrdd

HEN YSPRYDION AFLAN CULNI,

rhagfarn a thywyllwch; ac yn fwy na hyn nid yw yn caniatau iddynt ddychwelyd tuag atom fel y darfu iddynt wneud i'r dyn y sonir am dano gan Iesu yn y ddameg. Ond gwna osgoi hyn drwy lanw ein bywydau ag ysprydion glân a sanctaidd yn ffurf meddyliau da a dyheadau dyrchafedig. Dywed Oliver Wendell Holmes wrthym yn un o'i lyfrau ei fod unwaith yn myned am dro i'r awyr agored ac wrth ei fod yn rhodio yn y maes daeth ar draws careg yn gorwedd yn y ddaear. Darfu iddo drwy gymorth ei ffon ei throi wyneb i waered ac oddi tani yr oedd amrywiaeth rhyfeddol o fân greaduriaid. Ac mor gynted ag y daeth pelydrau'r haul i fewn tuag atynt darfu iddynt ffoi i bob cyfeiriad mor gynted ag oedd bosibl allan o'r golwg. Deiliaid bychain teyrnas y tywyllwch oeddynt. Ychydig amser ar ol hyn aeth Holmes am dro arall i'r un cyfeiriad ac yn awr yn lle daear wedi ei chaledu a'i gwasgu i lawr o dan bwysau'r gareg ac yn ffurfio cartref i bryfaid mân ac anymunol y llawr yr oedd wedi tyfu o dan ddylanwad goleuni a gwres yr haul gnwd toreithiog o laswellt oedd yn bleser i olwg dynion ac yn ymborth i gorff anifeiliaid.

Y mae gwybodaeth yn dylanwadu yr un fath ar y bywyd dynol. Ond i ni symud pwysau anwybodaeth i ffwrdd a gwneud lle i oleuni meddyliol ddyfod i fewn aiff holl ddeiliaid teyrnas y tywyllwch yn union o'r golwg, ac fe ddaw yno heb fod yn faith

GYNHAUAF TOREITHIOG O FFRWYTH YSPRYDOL

teilwng o'r Hwn sydd wedi ei greu ar lun a delw Duw. Ond nid yn unig y mae gwybodaeth yn ein cyfaddasu ar gyfer y bywyd sydd yr awrhon, a gwneud y greadigaeth yn helaethach a mwy dyddorol a gogoneddus i ni fyw ynddi, ond y mae hefyd yn ein galluogi i osod i fyny drysorau a fyddant o ddefnydd i ni mewn byd sydd i ganlyn ar ol hwn. Nid wyf yn anghofio mai yma 'rym yn byw yn bresenol a gall fod llawer o wir yn y cynghor mai gwell yw i ni adael "Tu Hwnt i'r Llen" yn llonydd hyd nes y byddom wedi dyfod yn agosach tuag ato. Ond nid yw bosibl i ni beidio taflu ein golygon yn mlaen weithiau at yr hyn sydd i ddyfod i bawb o honom rywbryd neu gilydd ac o bosibl i rai yn nghynt nag yr ydym yn barod i sylweddoli. Ac yn wir o ran fy hun yr wyf yn cael fy nhueddu i gredu ein bod hyd yn oed yn awr yn byw yn y ddau fyd i fesur. Ac feallai mai nid cywir yw dweyd dau fyd ond yn hytrach y dylasem eu galw yn ddwy stad o'r un fodolaeth. Y cyntaf yw'r anianol ac yna'r ysprydol neu'r meddyliol. Ni thybiaf y bydd yna ragor o wahaniaeth rhwng y stad gyntaf a'r stad sydd i ganlyn, nag sydd rhwng y materol a'r meddyliol yn y byd yr ydym yn awr yn ei fwynhau. Fe fydd pob ychydig o wybodaeth wnawn ni gasglu yma o o ddefnydd i ni eto hefyd yno. Fel y gwnawn ni hau yn feddyliol yma felly yn union y cawn ni fedu yn feddyliol yno. Parhad fydd y bywyd nesaf o'r hyn sydd wedi ei gyflawni yma a datblygiad o'r hyn sydd eisoes mewn hanfod ond cyn belled heb ei sylweddoli. Rhoddodd Paul fynegiad i'r un gwirionedd pan y dywedodd wrth y Corinthiaid "Canys gweled yr ydym yr awrhon trwy ddrych mewn

dameg ond yna wyneb yn wyneb. Yn awr yr adwaen o ran ond yna yr adnabyddaf megys y'm hadwaenir."

Glynwn wrth wybodaeth ynte—prif drysor y bywyd presenol ac un o'r trysorau mwyaf defnyddiol y medrwn ni ddwyn gyda ni i'r bywyd uwch a gwell sydd eto i ddyfod.

Pontypridd. J. PARK DAVIES.

ODDIAR Y TWR.

Er's cryn amser, y cri yn nghylchoedd crefyddol ein gwlad yw fod cagendor cynyddol ei faintioli yn agor rhwng yr Eglwysi o bob enwad a'r boblogaeth. Lleihad yn nifer yr aelodau, yn y mynychiad o'r addoldai a'r Ysgolion Sul, yn y dyddordeb gymerir gan y lliaws mewn sefydliadau crefyddol o bab math—dyna fyrdwn pob adroddiad enwadol ar derfyn y flwyddyn er's blynyddau bellach.

* * *

Beth oedd yn cyfrif am hyn? Dyna'r fath ofyniad flinai ein harweinwyr crefyddol fwy-fwy. Cyfrifai pob un am hyn yn ei ffordd ei hun. Gwaith hawdd, allem feddwl, oedd hyn. Ac nid di-ddyben oedd hyn ychwaith. Rhaid cael allan sedd y dolur cyn y gellir ei wella. Eithr nid mor hawdd yw cael gafael yn y feddyginiaeth i wella'r dolur. Dyna'r anhawsder mawr mewn perthynas i bob anhwylder—cael y feddyginiaeth iawn, effeithiol, nid yn unig i wella'r dolur, ond hefyd i symud pob achos ac ol o hono o'r cyfansoddiad.

* * *

Ychydig fisoedd yn ol, anfonodd ein cydwladwr a'n harweinydd, yr anrhydeddus Lloyd George, genadwri at yr Eglwysi. Nid yw geiriad y genadwri ger fy mron pan yn ysgrifenu, ond credaf fod a ganlyn yn grynodeb gweddol gywir a chyflawn o honi. Dywedodd—Os yw'r Eglwysi am adenill y tir y maent wedi golli y rhaid iddynt deimlo mwy o ddyddordeb yn amgylchoedd ac amgylchiadau bywyd y bobl. Ystyr y genadwri hon oedd y dylai'r Eglwysi fod yn alluoedd achubol mewn ystyr gymdeithasol, yn ogystal ag mewn ystyr eneidiol. Nid digon achub enaid rhag pechod a'i ganlyniadau, ond hefyd dylai fod yn allu i beri symud neu ddifodi yr amgylchoedd anffafriol i fywyd Cristionogol yn y rhai y mae y fath filiynau yn gorfod treulio eu dyddiau.

* * *

Cyffyrddodd y genadwri hon â chydwybod yr Eglwysi yn drwyadl. Nid rhyfedd, oherwydd yr oedd ynddi gymaint o wirionedd. Y mae'r Eglwysi wedi bod yn rhy wagelog rhag cyffwrdd â materion bydol (fel eu gelwid), y rhai, fel y tybid, oeddynt yn hollol tu allan i faes priodol eu llafur. Ei gwaith penaf hi, fel y taerai, oedd achub eneidiau, dwyn cenadwri Duw yn Nghrist adref at bechaduriaid. Yr oedd hyn, mor bell ag yr elai, yn eithaf iawn. Ond golwg rhy gyfyng ar waith Eglwys Gristionogol oedd hyn, er hyny. Ni fu adeg erioed pan y mae cymaint o angen achub eneidiau. Ac nid oes angen agweddu dim ar bwysigrwydd y rhan

hon o waith Eglwys Gristionogol. Dyna, yn wir, ydyw ei gwaith penaf o hyd. Ond llafuria'r Eglwysi dan anfantais ddirfawr cyhyd ag yr esgeulusant wneud eu rhan i wella amgylchiadau ac amgylchoedd bywyd beunyddiol y bobl.

* * *

Beth ellid wneud? Beth ddylid wneud? Dyna'r gofyniadau fuont yn destynau myfyrdod ein harweinwyr yn yr Eglwysi y misoedd diweddaf. Gallai'r Eglwysi gwrdd a'u gilydd mewn cynhadledd i gymeryd y mater i ystyriaeth. Dyna wnawd—cyfarfu cynrychiolwyr o Eglwysi perthynol i bob un o'r enwadau, cydffurfiol ac anghydffufiol, yn Nghaerdydd ar y 29ain cyfisol, pryd y traddododd y Canghellydd un o'i anerchiadau goreu.

* * *

Dyry'r lled-gyfieithad a ganlyn o ran o'r anerchiad syniad lled gywir am natur ac yspryd ei chynwys, "Tra mae lluoedd trwy y wlad mewn digalondid [oherwydd amgylchiadau ac amgylchoedd anffafriol] yn sicr nifedr yr Eglwysi ddweyd, 'Ai ceidwad fy mrawd ydwyf fi?' Beth, tybed, gymerai le pe, yn ystod y Nadolig diweddaf, y gwelsai y rhai fuont yn eistedd yn gyffyrddus yn mwynhau eu ciniaw Nadolig, ar ganol yr wyl, law anweledig yn agoryd ffenestr yn un o'r muriau, a dangos iddynt ystafell arall llawn o ddynion, benywod, a phlant yn byw mewn ogofau truenus. Dywedaf wrthych beth gymerai le. Rhewid digrifwch yn mhob calon. Dyledswydd yr Eglwys yw cadw y ffenestr yn agored; i'w chadw yn agored hyd nes y trawsffurfir yr olygfa druenus i fod yn un o ddedwyddwch a gobaith." Dyna sylwedd cenadwri'r Canghellydd i'r Eglwysi.

* * *

Nid cenadwri newydd, fodd bynag, yw hon. Dyma oedd cenadwri sylfaenydd Cristionogaeth. Amcan penaf ei genadwri a'i waith ef oedd sefydlu teyrnas Dduw ar y ddaear. "Deled Dy deyrnas," meddai. Esboniad ardderchog ar yr ymadrodd hwn yw'r geiriau a ganlyn—"Yspryd yr Arglwydd sydd arnaf fi, oherwydd iddo fy eneinio i; i bregethu i'r tlodion yr anfonodd fi, i iachau y drylliedig o galon, i bregethu gollyngdod i'r caethion, a chaffaeliad golwg i'r deillion, i ollwng y rhai ysig mewn rhydd-deb, i bregethu blwyddyn gymeradwy yr Arglwydd." Dyna sydd eisiau ei wneud heddyw—ie, heddyw yn fwy nag erioed.

* * *

Beth fydd effaith neu ffrwyth y gynhadledd uchod? Ni ddylid disgwyl gormod oddiwrthi, efallai. Ond os y llwydda i ddwyn adref at yr Eglwysi ei dyledswydd i draethu efengyl iachawdwriaeth gymdeithasol gyda mwy o bwyslais, i droi ei goleuni ar olygfeydd tlodi a thrueni, i ddal o flaen y bobl y ddelfryd ddylent gyrchu ati, ac i wneud cydwybod yr Eglwys Gristionogol yn fwy effro,—os y llwydda i wneud hyn, sicr yw y prawf y gynhadledd ei hun yn atalfa ar y dirywiad yn yr Eglwysi y cwynir o'i blegid.

SYLWEDYDD.

EIN YSGOLION SUL.

Mae dyled Cymru i'r Ysgol Sul yn fawr. Nid wyf yn meddwl y buaswn yn cyfeiliorni pe dywedwn fod dyled Cymru i'r Ysgol Sul yn fwy nag eiddo un wlad arall. Gelwir Cymru'n

"Wlad y Menyg Gwynion"

ond ai nid yw yn "Wlad y Menyg Gwynion" am ei bod yn wlad yr Ysgol Sul? Os cymer rhywun at ysgrifenu hanes Cymru gofaled roi penod hir i'w Hysgol Sul neu ni fyddai ei waith yn gyflawn. Rhaid edrych ar Gymru yn ngoleuni ei Hysgol Sul cyn ei deall, mae'n fath ò esboniad ar ei hanes a'i phrofiad.

Fendigaid Ysgol Sul! Mae wedi rhoi gwasanaeth ardderchog i'n cenedl ni—gwasanaeth ffyddlawn ac anmhrisiadwy werthfawr. Boed i ni barchu hon a cheisio hyd y mae ynom ei gwneud yn fwy o allu a dylanwad nag erioed. Geilw Isaac Ffoulkes hi yn "Athrofa Tlodion Cymru" a dyna yw wedi bod am flwyddi maith—yn wir dyna yw o hyd. Un o'i phlant hi oedd y diweddar Tom Ellis; ar fronau hon y

Y Magwyd D. Lloyd George

ac nid unwaith na dwy, ond lawer o weithiau y mae y dyngarwr hwn wedi tystiolaethu fod ei ddyled ef i'r Ysgol Sul yn fwy nas gall byth ei gyflawn gydnabod. Mae genym bob lle i gredu mai dyna yw profiad y mwyafrif mawr o bobl oreu ein gwlad.

Cyn dyfod yr ysgolion elfenol, canolraddol ac uwchraddol i agor meddwl a goleuo deall meibion a merched ein gwlad yr oedd hon yma yn "athrofa tlodion"—yr unig athrofa o fewn eu cyrhaedd hwy—a gwnaeth ei rhan yn ardderchog.

Cydnabyddir gan bawb bron fod bywyd a dyfodol yr Eglwysi yn dibynu i raddau helaeth ar yr hyn yw eu Ysgolion Sul. Lle mae'r Ygol Sul yn wan a didrefn, gwan yw y rhagolygon am y dyfodol; ar y llaw arall mae Ygol Sul gref, ddeallus, ac ymroddgar yn proffwydo dyfodol defnyddiol a hapus.

Credaf y cytuna holl aelodau ein Eglwysi Undodaidd yn Nghymru nad yw ein Hysgolion Sul yn bob. peth ellid ddymuno ac fod galw mawr yn y dyddiau hyn am ymdrechion newyddion er eu gwneud yn fwy o wasanaeth i'r eglwysi y perthynant iddynt ac er eu gwneud yn fwy o fendith i'r rhai a'u mynychant.

Naturiol yw gofyn

Sut Mae Gwella Ein Ysgolion Sul?

Sut y mae i ni eu gwneud yn fwy defnyddiol ac atdyniadol? Ceisio ateb y gofyniadau yna garwn i wneud yn yr ychydig awgrymiadau sydd i ganlyn. Gwn hanes y rhan fwyaf o'n Hysgolion Sul yn Ngheredigion yn weddol dda; gwn am yr anhawsder i gael athrawon deallus a phrofiadol, a llyfrau pwrpasol, heb son am ystafelloedd cyfleus (class rooms), ac wrth geisio ateb ceisiaf gadw yr holl bethau yna mewn cof, ac ymdrechaf gynyg awgrymiadau ag y gall pob ysgol eu cario allan yn rhwydd ond penderfynu gwneud hyny.

(1) Rhaid bod mor rheolaidd ag y gellir yn y gwaith o gario yr ysgol yn mlaen. Yn Sir Aberteifi mae yr ysgolion ran fwyaf i ddechreu am 10, a 2, bob yn ail Sul, ond yn fynych a yn ugain mynud wedi deg, ac yn ugain mynud wedi dau, ac mae dechreu'n aniben o ran amser yn golygu, y rhan fynychaf, dybenu yn aniben hefyd. A gaf apelio at arolygwyr ac athrawon i ofalu fod yr ysgolion dan eu gofal yn cael eu dechreu'n brydlon am ddeg a dau. Ar y dechreu, o bosibl, cânt gryn anhawsder i gadw eu penderfyniad, gan y bydd rhai yn parhau

i ddod yn ddiweddar, ond os daliant ati am bedwar neu bump Sul credaf y cant fuddugoliaeth ac y daw'r aelodau i wel'd ei bod mor hawdd dod erbyn deg o dan yr oruchwyliaeth newydd ag oedd gynt i ddod erbyn ugain mynud wedi deg. Dywedwn fod awr a chwarter yn llawn ddigon o amser i gadw'r ysgol, ac y dylasai'r un gofal gael ei gymeryd i ddiweddu yn amserol ag i ddechreu. Credaf fod y mater hwn yn un pwysig a gwir deilwng o sylw. Cyhyd ag y par yr aelodau i gredu mai rhywbeth y gellir ei dechreu a'i diweddu rywbryd yw'r Ysgol Sul cyhyd a hyny peidied neb a dysgwyl trefn, gwaith na llwyddiant.

(2) Rhaid dechreu a diweddu'r ysgol yn ffurfiol a defosiynol. Fel hyn mae'n awr mewn llawer ysgol. Oddeutu ugain mynud wedi'r amser penodol i ddechreu cwyd yr arolygwr ar ei draed, a chyda Thestament Newydd yn ei law cura un o'r byrddau a dywed yn gwta "mae'n bryd dechreu'r ysgol" ac yna â y gwahanol ddosbarthiadau i'w lleoedd ac at eu gwaith. A gaf apelio at yr arolygwyr i ofalu fod yr ysgol yn cael ei dechreu a'i diweddu'n ffurfiol a defosiynol bob Sul. Credaf y byddai'n werth i'r arolygwr drefnu wythnos yn mlaen pwy sydd i ddechreu a diweddu ; ac i ddechreu dylasid canu emyn, darllen ychydig adnodau ac offrymu gweddi ; i ddiweddu dylesid canu emyn ac offrymu gweddi. Mae hyn, a defnyddio brawddeg fawr beirniaid llenyddol yr Eisteddfod yn

ANHEBGOROL ANGENRHEIDIOL

er cael Ysgol Sul o naws a thymeredd iachus, gynes.

(3) Mae'n rhaid rhoi i bob dosparh waith a fyddo yn ateb i oedran a galluoedd meddyliol yr aelodau. Y dull cyffredin yn awr yw rhoi yr un benod i'r oll o'r ysgol. Yr un maes llafur sydd gan y plentyn deg oed ag sydd gan yr henafgwr triugain a deg. Credaf y buasai llawer gwell grân ar yr ysgolion, ac y cawsai yr aelodau lawer mwy o flas ac adeiladaeth o Sul i Sul pe bai pob dosbarth yn cael maes llafur yn ateb i'w alluoedd.

I blant rhwng deg a phedair ar ddeg oed nis gwn am ddim a fyddai yn fwy dyddorol, a chydag athraw medrus, nis gwn am ddim a fyddai yn fwy buddiol chwaith, na hanesion Beiblaidd, megys hanes Abraham, Joseph, Moses, &c. Dyweder fod haner awr dda yn cael ei rhoi bob Sul i'r gwaith hwn a'r gweddill o'r amser i adrodd adnodau oddiar y cof.

I rai mewn oed nid oes genyf ddim yn neillduol yn erbyn y dull presenol o gymeryd penod fel maes ond i'r penodan gael eu cymeryd yn rheolaidd o'r bron yn lle neidio o un man i'r llall fel y gwneir weithiau.

Dyma fel y carwn i weld y cymanfaoedd ysgolion yn cael eu cario yn mlaen. Rhodder cyfarfod y boreu i'r plant, pryd yr holir plant yr holl ysgolion yn y gymanfa mewn rhyw hanesyn Beiblaidd, a rhodder cyfarfod y prydnawn i rai mewn oed pryd yr holir yr oll o'r ysgolion oddiar yr un benod.

Peth dymunol iawn fyddai cael dipyn o amrywiaeth i waith yr ysgol. A fyddai allan o le i'r rhai mewn oed gymeryd llyfr fel "*Life in Palestine when Jesus lived*" yn fyfyrdod am dro? Na, credaf y buasai hyny o fudd mawr, canys mae'n anmhosibl i neb ddeall Iesu a'i genadwri os nad yw yn gyntaf yn deall y wlad y magwyd ef ynddi, yr oes oedd yn byw ynddi a'r bobl y cydoesai â hwynt.

Peth dymunol arall fel mater o amrywiaeth fyddai tori ar ddull arferol yr ysgol, dyweder ar ben pob dau neu dri mis er cynal cyfarfodydd o adrodd, canu, siarad a darllen payrau. Ni flina pobl Brondeifi son am y diweddar David Davies, Cwmanne (Deio'r Hwper). Mae Thomas Humphreys y Gwehydd, er wedi marw, yn llefaru eto wrth bobl y Llwyn. Yn wir mae gan bob cynulleidfa ac Ysgol Sul eu cwmwl tystion o hen ffyddloniaid sydd wedi ffarwelio, ac mi fyddai'n ddyddorol ac adeiladol i gael ambell i brydnawn i gofio am danynt? Gallasai un ddar-

llen papyr a dau neu dri arall ddyweyd ychydig eiriau ar y gwrthrychau dan sylw.

(4) Rhaid cael cymaint ag a ellir i fynychu'r ysgolion. Deugain mlynedd yn ol—rwyf yn dweyd hyn ar dystiolaeth dynion ereill—yr oedd mwyafrif aelodau y cynulleidfaoedd yn aelodau yn yr Ysgol Sul yn ogystal. 'Doedd neb yn rhy hen i fod yn aelod o honi, na nemawr i ddyn ieuanc a chanol oed yn

RHY DDOETH A GOLEUDIG

i'w mynychu, ond erbyn heddyw yn nglyn a'r Ysgol Sul fel yn nglyn a llawer o bethau eraill mae dynion yn "*too old at 40*" i fod mewn gwasanaeth. Mae gan rif yr aelodau lawer i wneud a llwyddiant yr Ysgol. Mae cwmni lluosog, yn enwedig os bydd nifer dda o honynt yn bobl mewn oed, yn dwyn nerth ac ysprydiaeth i waith a hanes yr ysgol. Os caf roi cynghor i'r arolygwyr, dyma fe :—Tynwch allan restr o enwau y rhai ag ydych yn ystyried ddylasent fod yn aelodau o'r ysgolion y perthynwch iddynt, ac yna, gyda chynorthwy yr athrawon, gwnewch apêl bersonol, daer atynt am eu presenoldeb a'u cynorthwy.

(5) A'r awgrym olaf geisiaf roi yn awr yw fod yn rhaid gofalu fod awyrgylch a thôn yr ysgol yn gyfryw ag a fydd

YN HELP I'R PLANT

ac i bawb i ymddwyn yn addas a boneddigaidd tra yn yr ysgol. Os gwneir hyn fe fydd ein Hysgolion Sul o wasanaeth i'r Eglwysi ac yn fendith i'w deiliaid.

A.B.

CONGL YR AWEN.

EMYN Y GLOWYR.

Ti ddoeth Ysprydolydd holl lafur y byd,
Wyt Noddwr trugarog y gweithiwr o hyd ;
Pob llafur sydd elw trag'wyddol i ni.
Os rhoddwn wasanaeth derbyniol i Ti.

Clyw weddi Dy weision, o ddyfnder y dda'r,
Gad ini Dy deimlo mewn angen yn Gar,
Yn nghanol peryglon ein bywyd bydd Di
Yn agos i'n nerthu, pan godwn ein cri.

Pan fyddo'n heneidiau mewn dychryn a braw,
Rho ras ini ganfod, fod oll yn Dy law ;
Er dyfod o'r danchwa angeuol, 'rwyt Ti
Yn barod i'n derbyn i'th fynwes yn gu.

Er cael ein carcharu, drwy ddamwain, yn brudd,
Yn ngheudod y ddaear, bydd oleu fel dydd
Os credwn, fel doethion, fod Brenin y Nef
Gerllaw i'n cysuro pan ddyrchwn ein llef.

Mae'r enaid mor agos i'r Nef ac i Ti
Yn ngwaelod y lofa, er dyfned yw hi ;
B'le bynag bo'r cyfryw a'th garant yn bur,
'R wyt yno i leddfu eu gofid a'u cur.

O ! Arglwydd y gweithiwr, drwy gydol ein taith,
Gwrola'n calonau yn oriau ein gwaith,
A gad ini gofio mai nepell nid yw,
O fynwes y ddaear, i fynwes ein Duw.

E. CEREDIG JONES.

EMYN Y MORWYR.

Tôn—MELITA.

Ti Grëwr mawr y cefnfor llaith,
Wyt amlwg iawn yn oll o'th waith ;
Dy law sy'n dal, drwy'r ddae'r a'r nef,
Awenau Dy lywodraeth gref ;
Erglyw ein gweddi, gadarn Iôr,
Dros bawb mewn perygl ar y môr.

Y corwynt certh ddychryna'u bron,
Mae cysgod angau yn mhob tòn,
A'r llong ehêd, fel deilen wan,
I'w dinystr ar y greigiog làn ;
Dy weision achub, Arglwydd Iôr,
Rhag gwneyd eu beddrod yn y môr.

O ! adfer hwynt i'w ceraint cu,
Yn iach o gôl y dyfnder du,
A thro ein pryder oll yn gân
O deilwng glod i'th enw glân,
Am roi ymwared, rasol Iôr,
I hoft anwyliaid ar y môr.

I'th 'wyllys ddoeth ymostwng wnawn,
Y goreu'n wastad genyt gawn ;
Yn ngoleu'th gariad, eglur yw
Nad aiff ar goll un enaid byw ;
Boed hyn ein cysur, dirion Iôr,
Pan godo'r dymestl ar y môr.

E. CEREDIG JONES.

———o———

TEFLWCH Y RHAFF.

[Achlysurwyd y llinellau canlynol gan yr hen syniad athrodus a draethir yn fynych gan ddosbarth o bregethwyr Cymreig, nad yw Cariad y Tad Anfeidrol ddim yn raff ddigon hir i achub eneidiau].

Pan fyddo trueiniaid lluddedig a gwan
Yn ymladd â'r tonau wrth geisio y làn,
A oes genym foddion i'w hachub yn llon,
A'u dwyn yn ddiogel o afael y dòn ?

"O ! teflwch y rhaff," hwy a waeddant yn brudd,
"Neu'r dyfnder yn fuan ein beddrod a fydd !"
A oes genym raff sydd ddigonol ei hyd
I achub eneidiau yn 'stormydd y byd ?

Oes !—cariad anfeidrol yr Arglwydd ein Duw,
Ddatguddiodd yr Iesu i holl ddynolryw—
Hael gariad y Tad a dderbyniodd yn ol
Ei blentyn crwydredig, colledig a ffol.

Mae hon, ni a wyddom, yn raff ddigon hir
I dynu holl dylwyth y ddaear i dir ;
Y cyfryw a lynant yn ddoeth wrthi hi
A ddygir yn ddiogel o gyrhaedd y lli'.

Diolchwn i Roddwr pob bendith a dawn,
Am foddion achubiaeth mor helaeth a llawn ;
A'n penaf hyfrydwch fydd taenu y gwir,
Fod cariad diddarfod yn raff ddigon hir.

E. CEREDIG JONES.

PRIODAS.

IONAWR 26, yn nghapel Brondeifi, gan y Parch. R. C. Jones, Mr. Griffith Jones Davies, Penlan, a Miss Margaret Davies, Castell Elwyn—y ddau o blwyf Pencarreg. Llwyddiant ac hapusrwydd fo'n eu dilyn.

MARWOFION.

RHAGFYR 20, 1911, Mrs. Margaret Jenkins, Alma House, Llanbedr, mam y Parchn. T. J. Jenkins, Hinckley, ac E. O. Jenkins, Llwynrhydowen a Bwlchyfadfa, yn 71 mlwydd oed. Ar ol hir nychdod gorphenodd Mrs. Jenkins ei gyrfa ddaearol ar y dydd uchod, a dyoddefodd yr oll o'i chystudd yn hynod amyneddgar. Gweinyddwyd arni yn dyner a gofalus gan gan ei mherch yr hon oedd hefyd wedi bod yn gynorthwy sylweddol iddi am lawer o flynyddau'n flaenorol, ac mi gafodd y fraint, a'r anrhydedd a'r nerth i hebrwng ei mham yn wyliadwrus iawn bob cam hyd lan y bedd. Gwelodd Mrs. Jenkins lawer i dro ar fyd a gosodwyd ar ei hysgwyddau aml i faich trwm ac anhawdd ei ddwyn. Collodd ei phriod flynyddoedd lawer yn ol pan oedd ei phlant yn fach ac heb eu mhagu, ond trwy diriondeb Rhagluniaeth, a thrwy fedrusrwydd ac ymdrech bersonol ar ei rhan ei hun a'r gynorthwy ydym wedi son am dano uchod, ac o bosibl garedigrwydd cyfeillion, cafodd y rhwystrau i fesur eu symud a daeth yr haulwen yn raddol i ddysgleirio yn fwy tanbaid yn ffurfafen ei bywyd tua diwedd ei hoes fel ar ei dechreu. Yr oedd yn aelod o Eglwys Brondeifi ac nid oedd neb yn fwy galluog a pharod i roddi ateb i arall am y gobaith oedd ynddi a hyny gydag addfwynder. Gadawodd mewn galar ar ei hol bump o blant heblaw perthynasau eraill lawer. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent y llan, a gwasanaethwyd yn y ty ar yr achlysur gan weinidog Brondeifi ac yn yr Eglwys a'r fynwent gan yr offeiriad.

RHAGFYR 23, 1911, yn 78 mlwydd oed, David Jones, Llanfair Hill, Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Capelygroes, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, gyda chynorthwy y Parchn. E. Glyn Edwards (B.) a David Evans. Gadawodd weddw, wyth o blant ac amryw wyrion i alaru ar ei ol.

RHAGFYR 25, 1911, Mrs. Mary Anne James, priod Mr. John Saunders James, Cwmanne Shop, yn 41 mlwydd oed. Bu Mrs. James yn wael am amser maith, ond byddai hi ei hunan weithiau ac eraill gyda hi'n teimlo'n hyderus iawn ei bod i gael adferiad i'w chynefinol iechyd, ac i fod o wasanaeth a chysur eto i'w theulu'n flaenaf ac i eraill, ond esboniodd amser mai nid felly oedd pethau i fod, a machludodd ei haul megys ar haner dydd, er tristwch, a galar, a cholled mewn modd neillduol i'w phriod a'i phlant. Yr oedd i Mrs. James air da gan ei holl gydnabad a chan y gwirionedd ei hun ni a gredwn. Gadawodd mewn galar dwys ar ei hol heblaw priod a dau blentyn, fam oedranus, a brodyr a chwiorydd, a pherthynasau eraill lawer. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent capel Brondeifi a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. S. E. Prytherch (C.M.),

yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Rhys Morgan (C.M.) ac R.C. Jones.

RHAGFYR 26, yn 58 oed, Mary, anwyl briod Mr. Benjamin Evans, Cambrian House, Cwrtnewydd. Claddwyd yn mynwent Capelybryn a chyflawnwyd y gwasanaeth ar yr achlysur gan y gweinidog, gyda chynorthwy y Parch. E. Glyn Edwards (B.). Gadawodd ei phriod a phump o blant i alaru'n ddwys ar ol un a fuasai'n wraig mor ffyddlon, ac yn fam mor dyner a darbodus. Nerth a gaffont oll i alaru'n gymedrol.

RHAGFYR 31, 1911, yn 57 oed, Mrs. Hannah Davies, Coopers, Spring Street, Llandyssul. Y dydd Mercher dilynol claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn mynwent Pantdefaid pryd y gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog. Collodd yr ymadawedig ei phriod flynyddoedd yn ol ac arni hi y disgynodd y ddyledswydd o ddwyn i fyny ei theulu, yr hyn a wnaeth yn anrhydeddus, gyda mesur mawr o ffyddlondeb a gweithgarwch. Yr oedd yn aelod rheolaidd yn y Graig, a mynychai yn ffyddlon cyhyd ag y parhaodd ei hiechyd. Bydded i'w mherch a'i phump mab i'w hefelychu yn y pethau goreu—

Tynerwch a chariad fu'n harddu
  Awyrgylch ei bywyd i gyd,
A blodau ei bywyd sy'n gwynu
  Mewn Adgof a Serch yn y byd ;
Er croesau y daith a'i phryderon,
  Ni chollodd ei ffydd yn ei Duw :
A theimlodd yn 'ffrydiau yr afon'
  Fod dwylaw ei 'Thad wrth y llyw.'

IONAWR 2, Anne Hannah (Nancy), anwyl ferch Mr. a Mrs. David Davies, 8, Harford Row, Llanbedr, yn dair blwydd oed. Claddwyd gweddillion y fechan yn mynwent Brondeifi a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

IONAWR 16, yn 22 oed, Martha Jane Williams, Glynhir, Plwyf Llanbedr. Claddwyd yn mynwent Alltyplacca ; a gwasanaethwyd ar yr achlysur yn y ty, gan y Parch. Lewis Wiliams, ac yn y capel a'r fynwent gan y gweinidog. Gadawodd ei mam, ei brawd, a'i chwaer mewn galar dwys ar ol un oedd mor gu ac anwyl iddynt. Yr oedd yr angladd yn llawer mwy lliosog na'r cyffredin ac arwyddion amlwg o alar cyffredinol. Yr oedd yr ymadawedig yn ferch ieuanc o dymer gariadus iawn ac felly wedi enill serch holl gylch ei hadnabyddiaeth. Yr oedd yn aelod selog a gwerthfawr o'r Eglwys yn Alltyplacca; ac wedi bod yn organydd ffyddlon am flynyddau. Y Tad goreu a ddyddano'r teulu yn eu galar, ac a godo eto rywrai o gyffelyb yspryd i lanw'r lle gwag.

IONAWR 6, yn 79 oed, Mrs. Mary Jones, anwyl briod Mr. Evan Jones, Pensarn, Drefach, Llangeler. Claddwyd y dydd Iau dilynol yn mynwent capel Penrhiw, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Idwal Jones (B.). Ganed Mrs. Jones yn Mhensarn lle y bu fyw drwy ei hoes, ac yr oedd yn un o'r aelodau olaf gofiai am Penrhiw driugain a thriugain a deg o flynyddau yn ol, a pharhaodd i gymeryd dyddordeb yn yr hen gapel hyd y diwedd. Yr oedd yn gymeriad didwyll a didderbynwyneb ac iddi air da gan bawb a'i hadwaenai. Nodded y nef fyddo dros ei phriod a'i thair merch adawodd mewn galar.

MANION AC HANESION.

GRAIG, LLANDYSSUL. — Dydd Calan anrhegwyd Ysgol Sul a chyfeillion y Graig a gwledd ragorol o dê gan Mr. a Mrs. Davies, King's Head Hotel, a chynorthwywyd hwy a'u teulu gan foneddigesau caredig y gynulleidfa. Mwynhawyd y pethau da ddarparwyd gan nifer luosog iawn o gyfeillion pell ac agos. Yn yr hwyr, o dan lywyddiaeth y Major C. H. D. Cass, D.S.O., Dol'llan, cafwyd cyngherdd llwyddianus iawn yn mhob ystyr, a throsglwyddwyd gweddill da i drysorfa yr Ysgol Sul mewn canlyniad. Y mae ein diolchgarwch yn ddyledus i aelodau yr Ysgol Sul ac eraill am eu hymdrechion teilwng, y rhai goronwyd gyda chymaint llwyddiant.

CAPELYCWM.—Cynhaliodd Ysgolion Sul Capelybryn a Chapelycwm eu cyfarfod Nadolig blynyddol yn y lle uchod dydd Sul, y 24ain o Ragfyr. Daeth yr aelodau yn nghyd yn weddol gryno ag ystyried y tywydd, ac aethant trwy eu gwaith yn ganmoladwy ar y cyfan, er y carem wel'd rhagor, yn enwedig o'r plant a'r bobl ieuainc, yn ceisio ateb gofyniadau yr holwyr. Yn absenoldeb anorfod y gweinidog holwyd ysgol y Cwm gan Mr. T. Oswald Williams, Gwarnant, ac ysgol y Bryn gan D.J.D.

LLWYNRHYDOWEN. — Bu rhyw foneddiges mor anffortunus a gadael ei "hovercoat" ar ol yn Llwynrhydowen dydd y Cyrddau Blynyddol Mehefin diweddaf. Os gwna ohebu a'r Parch. E. O. Jenkins, Llwyn Marles, Llandyssul, gall ei chael eto. ——Dydd Nadolig, talodd Ysgol Sul Capelyfadfa ei hymweliad blynyddol a'r Llwyn a chafwyd prydnawn dymunol iawn gyda'r "holi pwnc." Bu Mr. T. G. Thomas, Ffactri, Talgareg mor garedig a chymeryd lle y gweinidog a chyflawnodd y gwaith yn ddoeth a medrus yn ol ei arfer. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyngherdd llwyddianus iawn yn yr hen gapel. Yr oedd yr adeilad yn orlawn a phawb yn mwynhau eu hunain yn ardderchog. Cymerwyd y gadair gan Mr. John Jones, Caerfyrddin (gynt o Rhydowen Mill) ac arweiniwyd y cyfarfod gan Mr. T. G. Thomas. Canwyd amryw weithiau gan gôr a phartion o'r Llwyn o dan arweiniad destlus Mr. Johnnie Davies, Gellifaharen.

CEFNCOED.—Dydd Llun, y cyntaf o'r mis hwn sef dydd Calan, cynhaliwyd gwyl de a bara brith yn ysgoldy yr Hen Dy Cwrdd. Y mae cyfarfodydd o'r fath hyn bob amser yn llwyddianus, ac nid eithriad i'r rheol oedd hi ar yr achlysur hwn. Addurnwyd yr ystafell yn brydferth iawn gan foneddigesau yr Ysgol Sul, y rhai hefyd a weinyddasant wrth y byrddau; a daeth llawer o ddieithriaid yn nghyd a llu o aelodau y lle i gydfwynhau yn y wledd. Y noson hono cafwyd cyfarfod cystadleuol yn y capel dan lywyddiaeth Arolygydd yr Ysgol Sul sef Mr. Rees Jenkins. Y beirniaid oeddynt: — Cerddoriaeth, Mri. William Harries a John Lewis; Amrywiaeth, Miss L. Jenkins a'r gweinidog; Prize Bags, Mrs. J. R. Evans a Mrs. Cararra Davies. Yr oedd y capel yn orlawn, ac ymddangosai pawb fel pe wedi cael eu llwyr foddloni. Yn groes i arferiad y gorphenol ni chyfranwyd yr anrhegion i blant ffyddlon yr Ysgol Sul, ond gwnawd hyny prydnawn y Sul canlynol, a'r rhai dderbyniasant oeddynt leng.——Nos Fawrth, Ionawr 23ain, daeth y Parch. J. Park Davies, B.A., B.D., Pontypridd i anerch y Gymdeithas Ddiwylliadol a berthyn i Eglwys yr Hen Dy Cwrdd, Cefncoed, ar y testyn "Buddha." Yr oedd yr ysgoldy yn llawn o wrandawyr astud, ac y mae gan Mr. Davies lu o edmygwyr ar y Cefn. Cadeiriwyd gan Lywydd y Gymdeithas sef y gweinidog.

GALWAD.—Y mae y Parch. David

Gwynog Rees, Penybontarogwy wedi derbyn galwad unfrydol a gwresog oddiwrth Eglwysi Gellionen a'r Graig Trebanos ; a deallwn fod yntau wedi ei derbyn yn gadarnhaol. Llongyfarchwn yn galonog yr Eglwysi a Mr. Rees, gan ddymuno ar i'r uniad i fod yn un ffrwythlawn ac arosol.

CYLCHGRONAU CYMRU.—Wrth daflu golwg dros gylchgronau enwadol Cymru y dyddiau hyn, fe'n tarewir a syndod wrth ganfod gymaint sylw delir ynddynt i Undodiaid ac Undodiaeth. Nid oes angen dyweyd y derbyniwn unrhyw sylw ffafriol, ond y mae yn syndod er hyny y cydnabyddir ein bodolaeth o gwbl. Wrth ddarllen erthyglau galluog y Prifathraw Rees o Fangor ar "Lle Duwinyddiaeth yn y Pwlpud" ac eiddo y Parch. James Charles, Dinbych, ar "Yr Ail Berson yn y Drindod" yn y "Dysgedydd," gorfodir ni ofyn y cwestiwn paham y cyfeiriadau parhaus hyn at Undodiaeth. Nid oes genym ond un ateb i'w gynyg, sef fod yna berygl mawr fod y bobl yn dechreu llithro ymaith oddiwrth yr hen gredoau a chyffesiadau ystyrid unwaith fel yn anffaeledig. Wrth son am y "Dyn Dwyfol" dywed Mr. Charles mai hon yw dysgeidiaeth Schmiedel ac eraill. "Traethant bethau ardderchog am dano (Iesu) ond wedi'r cyfan, onid *dyn* ydyw yn eu golwg ? Dyn enwog iawn, mae'n wir, y goreu welodd y byd, a'r cymeriad perffeithiaf, os nad y goreu wel y byd byth. Oni lefarai Channing bethau mor fendigedig a hwythau am y mab ? Undodwr oedd Channing, ac nis gallwn weled fod yr awdwyr hyn fymryn gwell nag Undodwyr. *Modern Unitarians* mae'n wir, ond Undodwyr serch hyny." Onid ofn nerth y llif dylifol hwn sydd ar y brodyr ? Nid oes fodd camsynied nad ydyw tuedd feddyliol yr oes hon yn sicr o fod yn arwain i gyfeiriad Channing ac eraill fel efe.

Y GENINEN.—Rhifyn rhagorol o ddarllenadwy a dyddorol ei herthyglau ydyw y "Geninen" am fis Ionawr. Darllenwyd genym ragor nag unwaith erthygl y Parch. D. Stanley Jones, ar y "Tywysog yn y Castell" Desgrifiad byw a thyner sydd ganddo o Arwisgiad Tywysog Cymru yn Nghastell Caernarfon yr haf diweddaf. Ysgrifena y Parch. W. F. Phillips yn danllyd iawn ar "Y Perygl oddiwrth Sosialaeth yn Nghymru." Y mae rhyw Sosialydd wedi ysgrifenu rhywbeth fel hyn : "Y mae yn Nghymru grefydd ryfedd iawn. Dywed y trigolion eu bod yn credu yn Iesu Grist, ond ni wnant yn unol a'i air. Dywedant mai Un Duw sydd, eto erlidir yr Undodwyr am gredu mai un Duw sydd. Dywedant fod un Duw yn dri Duw ; ac os gwrthoda rhywun gredu hyny, teflir ef i bwll mawr yn llawn tan a brwmstan, &c." Dywed Mr. Phillips mewn atebiad na ysgrifenwyd gabledd mwy dychrynllyd mewn unrhyw iaith. Yr ydym ni yn wirioneddol yn methu gweled lle mae'r cabledd yn dyfod i fewn yn y llinellau ddifynwyd uchod. Dywed pob Undodwr sydd ganddo ychydig brofiad na ysgrifenwyd well gwirionedd *erioed.* Y mae y "Geninen" drwyddi yn ddyddorol iawn a chymeradwywn ein pobl ieuainc i'w darllen yn ofalus.

Y PARCH. DAVID DAVIS, Castellnedd oedd fab hynaf y Parch. David Davis, Castell Hywel. Ganwyd ef Chwefror 24, 1778 a bu farw Rhagfyr 4, 1846. Efe oedd Golygydd "Telyn Dewi," cyfrol barddoniaeth ei dad—cyfrol ddylai fod yn fwy adnabyddus yn mhlith Undodiaid Cymru nag y mae. Yn y *Cambrian* ceir llawer o'i gynyrchion barddonol—yn Saesneg y maent fwyaf o honynt. Carem weled rhai o honynt yn YR YMOFYNYDD. Yn y *Cambrian* am Mai 12, 1804, ceir yr englyn Lladin a ganlyn wedi ei gyfieithu ganddo :

Fortuna amica mecum—In vico
Me vocant magistrum ;
Si sors vertat retrorsum,
Tunc omnibus servus sum.

Translation—
Now fortune smiles, each one I meet,
Salutes me master in the street ;

But should she frown and I should fall,
I then must be the slave of all.—*D.*

Rhydd hen benill Cymreig gyffelyb wèrs—

Pan own i'n wr cynes a'm lloches yn llawn,
Fy marnu'n synwyrol rhagorol a gawn,
Troi'n ynfyd a wnaethum pan aethum yn ol,
Di ras a direswm a phendrwm a ffol :
Fy anwyl gymdeithion a droisant y drych,
Yr rwan nis gwelan oes gowan was gwych,
Heb un gair o gelwydd, pe gallen yn rhwydd,
Yn nghysgod rhedynen hwy'm cuddien o'u gwydd !—*Anad.*

I'R GWIR DI-ANRHYDEDDUS WILLIAM PITT.

Pitt iauwr, llethwr a llwythi,—gwarau
Gwerin mewn caledi ;
Pwll uffern, pwy eill hoffi
Dy oer droion, duon di ?

Cigydd annedwydd ei nodiad—Bradwr
I Brydain yn wastad ;
Gelyn llym gwiw lawn wellhad,
Oer fariaeth arw ei fwriad.

TOMAS GLYN COTHI
(1764—1833).

I FFYNON FOCYN

Yn Mhont-y-capel, Cefncoed-y-cymar.

'Rwy'n dra boddlon i fy Ffynon,
Sy'n tarddu o eigion daear fud,
Caf yfed ynddi
A'm di-sychedu.
Nid yw hi'n meddwi un dyn o'r byd,

Heb chwalu 'chwanneg
Na rhwng dwy gareg
Yn rhad mae'n rhedeg, wel dyma fraint :
Nid yw'r hi'n yngan
Un gair am arian,
Caf gadw'm codan yr un faint.

SION LLEWELYN

(1690—1776).

YR HELIWR.

(*Buddugol*).

Dewr hwyliog ydyw'r heliwr,—yn y drain
Gyda'r dryll mae'n gampwr ;
Ni fyn waith, ni fu'n weithiwr,
Rhwydo *game* yw bryd y gwr.

Fronwen. T. THOMAS.

YR YMOFYNYDD.

GELLIR CAEL YCHYDIG

GYFROLAU O'R YMOFYNYDD

o'r Swyddfa er eu rhwymo am y blynyddau canlynol :—
1901, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11.

Pris 2/- y Gyfrol yn rhad drwy y Post.

Anfoner i SWYDDFA YR YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.
Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1857.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),
To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

STANDARD FLOUR

(Containing 80 per cent. of the whole wheat.)

T. E. JONES & Co. beg to announce that they are Millers of Standard Flour which contains 80 per cent. of the whole Wheat, including the Germ and Semolina. This Flour is a pure unadulterated Wheat Flour containing all the nutritive properties, and has passed the test of the "Daily Mail" Specialist. Also Manufacturers of Pure Welsh Oatmeal.

Prices on application—Wholesale and Retail.

T. E. JONES & Co., The Stores, Llandyssul, Firwdwen Mills, Ponttwelly, & Rhydowen Mills

TELEGRAMS—JONES CO., LLANDYSSUL.

FOOTWEAR of QUALITY.

We Stock a good Selection of Ladies', Gentlemen's, & Children's Boots & Shoes for all occasions.

We do not pin our faith to "One-Price" as though, in some unexplainable fashion, all the virtues were inseparably connected with some particular combination of figures.

We offer you a choice, at a range of prices which covers all requirements with the Utmost Value at the Price in every Pair.

Next time, try a pair of Ben. Evans' Boots and test the value "in the wear."

BEN. EVANS & Co., Ltd.,

SWANSEA.